

# YMGYSYLLTU Â'CH AELOD SENEDDOL NEU GYNRYCHIOLWYR ETHOLEDIG ERAILL

COMMUNITY & GLOBAL

**ECO**  **CHURCH**  
AN A ROCHA UK PROJECT



**ALLCHURCHES TRUST LIMITED**®  
OWNERS OF ECCLESIASTICAL INSURANCE GROUP

[www.ecochurch.arocha.org.uk](http://www.ecochurch.arocha.org.uk)





## COMMUNITY & GLOBAL

# Ymgysylltu gynrychiolwyr

### PAM?

Pwy bynnag ydych chi, a ble bynnag yr ydych, gallwch ymgysylltu â'ch cynrychiolwyr etholedig. Mae gorchymyn yn y Beibl i fod yn halen a goleuni (Mathew 5:13-16); sef bod yn amlwg yn eich cymdeithas oherwydd eich gweithredoedd, gan hefyd barchu pobl mewn awdurdod: *'Y mae'n rhaid i bob un ymostwng i'r awdurdodau sy'n ben. Oherwydd nid oes awdurdod heb i Dduw ei sefydlu* (Rhufeiniaid 13:1). A hyd yn oed pan oedd yr Iddewon wedi eu halltudio, cawson nhw eu gorchymyn i geisio heddwch a ffyniant yn y ddinas yr oedden nhw wedi ei chyrraedd (Jeremeia 29:7).

Dylem ni annog, cefnogi a gweddio am ein swyddogion etholedig, gan hefyd dynnu sylw at faterion sy'n bwysig yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Mae lobiö yn un ffordd o wneud hynny, naill ai'n unigol neu yn rhan o grŵp. Mewn gwleidyddiaeth, lobiö yw'r weithred o geisio dylanwadu ar bolisiau neu benderfyniadau llywodraeth leol neu genedlaethol. Os yw'n cael ei wneud yn dda, mae aelodau seneddol a chynghorwyr lleol yn croesawu'r cyfraniad, oherwydd mae'n eu helpu i ddeall beth sydd ar feddwl ac yng nghalonau'r bobl y maen nhw'n eu cynrychioli.

Mae Evangelical Alliance yn rhoi cyngor ynglŷn â pham a sut i gysylltu:

<https://www.eauk.org/assets/files/downloads/Connect-resource-UK.pdf>

### SUT?

Wrth ymgysylltu â'ch Aelod Seneddol neu gynrychiolwyr etholedig eraill, ceisiwch ganfod beth yw eu blaenoriaethau nhw fel unigolion, a blaenoriaethau'r blaid y maen nhw'n ei chynrychioli, fel eich bod yn gallu cyfathrebu â nhw mewn ffordd adeiladol. Dyma rai syniadau ac awgrymiadau ar sut i wneud hynny:

### ESTYNNWCH GROESO I'CH CYNRYCHIOLYDD ETHOLEDIG LLEOL I'CH EGLWYS

Pam na wnewch chi wahodd eich aelod seneddol, maer neu gynghorydd lleol i ddiwyddiad sy'n nodi dechrau eich taith fel Eco Eglwys? Nes ymlaen, gwahoddwch nhw yn ôl pan fyddwch yn cyflwyno eich gwobr.



## COMMUNITY & GLOBAL

# Ymgysylltu gynrychiolwyr

Mae'r wefan 'Write to them' yn dweud wrthyhch pwy yw eich cynrychiolwyr lleol a chenedlaethol ac yn esbonio'r gwahanol feysydd o gyfrifoldeb ar gyfer y gwahanol lefelau o lywodraeth: <https://www.writetothem.com/>

Trefnwch **gwrdd â'ch AS** drwy wneud apwyntiad yn ystod cymhorthfa leol. Os nad ydych erioed wedi cwrdd ag o/â hi o'r blaen, efallai y byddwch yn teimlo ychydig yn ansicr ond mae cael gwleidydd sydd wedi'i seilio'n lleol ac sy'n eich cynrychioli chi yn y Senedd yn un o brif nodweddion system ddemocrataidd. Os ewch i weld eich Aelod Seneddol gyda phobl eraill o'ch eglwys neu gymuned, gallai'r ymweliad fod yn fwy effeithiol a gallai wneud i chi deimlo'n fwy cyfforddus.

Mae 'cymhorthfa' yn floc o amser y mae eich Aelod Seneddol yn ei glustnodi i weld pobl yn yr etholaeth. Gallwch wneud apwyntiad i'w gweld drwy gysylltu â'u swyddfa etholaeth drwy eu gwefan. Cofiwch mai gwaith eich aelod seneddol yw hi i'ch cynrychioli chi. Dyma rai awgrymiadau i'ch helpu i sicrhau bod eich cyfarfod yn llwyddiannus:

- gwnewch nodiadau o'r prif bwyntiau yr ydych eisiau eu codi fel nad ydych yn anghofio unrhyw beth pwysig
- darllenwch am gefndir eich aelod seneddol i weld a ydyw wedi bod mewn swyddi allweddol sy'n berthnasol i'r mater yr ydych eisiau ei godi
- byddwch yn brydlon, cwrtais a pharod, ond peidiwch â digio os yw'n rhedeg yn hwyr
- cadwch eich cyfarfod ar y trywydd cywir a pheidio gadael i'r sgwrs grwydro
- cyflwynwch achos personol ac esboniwch pam mae'n bwysig i chi
- os na allwch chi ateb cwestiwn, dywedwch y byddwch yn dod yn ôl gydag ateb
- helpwch eich AS i ddeall y mater a gadael crynodeb iddo/iddi
- gofynnwch i'ch Aelod Seneddol wneud rhywbeth pendant: er enghraifft, cysylltu â gweinidog llywodraethol a dod yn ôl atoch pan fydd ganddo/ganddi ateb
- nes ymlaen, gofynnwch a ydyw wedi gwneud fel y gofynnoch chi
- dilynwch hyn gyda galwad ffôn, e-bost neu lythyr neu defnyddiwch y cyfryngau cymdeithasol





## COMMUNITY & GLOBAL

# Ymgysylltu gynrychiolwyr

### DEFNYDDIWCY YR ADNODDAU SY'N CAEL EU CYNNIG GAN HOPE FOR THE FUTURE (HFTF), YOUNG CHRISTIAN CLIMATE NETWORK (YCCN) A SEFYDLIADAU TEBYG

Dechreuodd HftF fel grŵp bach yn Swydd Efrog oedd eisiau sbarduno aelodau eglwysi i ymddiddori yn y newid hinsawdd a rhoi gwybod sut roedden nhw'n teimlo i'r ymgeiswyr seneddol yn Etholiad Cyffredinol 2015. Ers hynny, mae'r gwaith wedi tyfu'n enfawr, am fod HftF yn rhoi'r medrau i bobl gyfathrebu am yr argyfwng hinsawdd, ac yn cynnig adnoddau defnyddiol ynglŷn â sut i gyfathrebu â'ch AS. Mae hyn yn cynnwys llythyrau templed a llyfrau gwaith i ymgyrchwyr, yn cynnwys un yn y Gymraeg, a chanllaw i'r COP26 i eglwysi. Mae HftF hefyd yn cynnal digwyddiadau hyfforddi rhad ac am ddim, i helpu pobl i ennill hyder a dysgu sgiliau i gyfathrebu'n effeithiol ag aelodau seneddol a'r bobl sy'n gwneud y penderfyniadau:

<https://www.hftf.org.uk/mps>

<https://www.hftf.org.uk/campaigner-workbooks>

<https://www.hftf.org.uk/events>

Mae YCCN yn gymuned o Gristnogion ifanc 18–30 oed yn y DU sydd â ffocws ar weithredu ac sy'n dewis dilyn Iesu wrth geisio cyfiawnder hinsawdd. Mae gan y wefan lawer o adnoddau yn ymwneud â COP26 yn cynnwys 'Canllaw Sut i Wneud' am eiriolaeth wleidyddol: <https://www.yccn.uk/political-engagement>

### RHOWCH FFOCWS I'CH YMGYSYLLTIAD

Gallai fod yn ddigwyddiad fel y gynhadledd COP 26 (26ain 'Cynhadledd Pleidiau' ar Newid Hinsawdd y Cenhedloedd Unedig) sy'n cael ei chynnal gan y DU yn Glasgow ym mis Tachwedd 2021. Mae COP26 yn ddigwyddiad hanfodol ac uchel ei broffil lle mae 190 o arweinwyr byd yn cyfarfod i gytuno ar gamau gweithredu i fynd i'r afael â newid hinsawdd fel blaenoriaeth fyd-eang. Gallai eglwysi wneud hon, neu faterion neu ddigwyddiadau newid hinsawdd eraill, yn ffocws i'w sgysiau gydag Aelodau Seneddol neu wrth ymgyrchu: <https://ukcop26.org/>  
<https://www.hftf.org.uk/faith>



## COMMUNITY & GLOBAL

# Ymgysylltu gynrychiolwyr

### YSTYRIWCH DDOD YN LOBÏWR LLEOL I GRŴP CRISTNOGOL

Mae lobïwyr lleol yn helpu i gymryd negeseuon am gyfiawnder at galon y llywodraeth. Mae hon yn ffordd bwerus o newid a dylanwadu ar gyfreithiau a pholisïau. Os ydych yn lobïwr lleol i asiantaeth, byddwch yn cwrdd â'ch AS lleol neu'n ysgrifennu atynt am wahanol faterion. Does dim angen i chi fod yn arbenigwr ar y materion perthnasol, bydd y sefydliad yr ydych yn lobïo ar ei gyfer yn rhoi'r holl wybodaeth a chymorth yr ydych ei angen, er enghraifft pecyn adnoddau Cymorth Cristnogol:

<https://www.christianaid.org.uk/resources/campaigns/local-lobbyist-pack-most-mps>

### DEFNYDDIAU DARLLEN HIRACH AC ADNODDAU ERAILL

Christians in Politics: <https://www.christiansinpolitics.org.uk/>

Mae 'Cristnogion yn y Senedd' yn Grŵp Seneddol i'r Pleidiau i Gyd, sy'n bodoli i gefnogi'r holl Aelodau a staff yn eu gwaith yn Nhŷ'r Cyffredin, Mae'n grŵp anffurfiol sy'n credu'n gryf y dylai Cristnogion gymryd rhan mewn gwleidyddiaeth, a bod gan Gristnogaeth lawer i'w gynnig i wleidyddiaeth a bywyd cyhoeddus. Mae'n anodd i Aelodau Seneddol fod yn y sbotolau yn gyson, felly bydd unrhyw beth y gallwn ei wneud i annog, cefnogi a gweddïo am ein Aelodau Seneddol yn cael ei groesawu:

<https://www.christiansinparliament.org.uk/>

<https://www.christiansinparliament.org.uk/resources/christianity-politics/>